



**Y Coleg
Merthyr Tudful**

**The College
Merthyr Tydfil**

Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn

Y Coleg Merthyr Tudful

Ebrill 2021

Tarddwr y polisi: Swyddog Dwyieithrwydd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Wedi'i Gwblhau:

**Cymeradwywyd gan: Adran Gweithrediaeth y
Coleg**

Dyddiad Cymeradwyo: Ebrill 2021

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2023

Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg

Diben ac Amcanion

- 1. Amrediad**
- 2. Darparu Gwasanaethau**
- 3. Gweithrediadau Mewnol**
- 4. Llunio Polisiâu**
- 5. Monitro ac Adrodd**
- 6. Ymdrin â Materion Atodol**

Diben ac Amcanion – Adran A

Mae Coleg Merthyr Tudful yn llwyr gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Nod adran A yn y polisi hwn yw rhoi arweiniad i'r holl staff ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg tra hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Safonau'r Gymraeg a gyflwynir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn eu busnes o ddydd i ddydd ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae gweithredu'r polisi hwn yn unol â gofyniad Safon 105 o Safonau'r Gymraeg. Mae'r Coleg yn ymwybodol o'r rôl ganolog sydd ganddi i'w chwarae o ran targed Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. <https://gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy>

Mae amcanion y polisi hwn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i hyrwyddo yn y coleg
- Hwyluso gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol Cymru
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y coleg
- Annog a chynnig pob cyfle i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg

Amcanion strategol Coleg Merthyr Tudful (ochr yn ochr â Safonau'r Gymraeg)

Yn ogystal â bodloni gofynion statudol Safonau'r Gymraeg mae'r Coleg wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu cyfrwng Cymraeg a Dwyieithrwydd sy'n sail i Weledigaeth, Cenhadaeth a Chynllun Strategol y coleg 2023 a'r nodau a'r amcanion cyffredinol a nodir yng Nghynllun Gweithredu Coleg Cymraeg Cenedlaethol Tuag at 2050: *Miliwn* o siaradwyr Cymraeg – Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaeth.

1. Amrediad

1.1 Bydd y polisi hwn yn darparu sylfaen gref ar gyfer y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Coleg i'w staff, dysgwyr a'r cyhoedd, a bydd yn atgyfnerthu gofynion cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.

1.2 Bydd y Coleg yn parhau i weithredu ei Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a bydd yn cadw cofnod o lefelau iaith staff a dysgwyr, gan roi cyfle i staff ddiweddar cofnodion DPP wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a chaniatáu i bob dysgwr ddatblygu ei sgiliau drwy amrywiaeth o raglenni datblygu. Bydd y Coleg yn cadw cofnod o ddewis iaith staff ar y system **Adnoddau Dynol MEWNOL** a chofnod o ddewis iaith pob dysgwr drwy'r system EBS

1.3 Bydd gan holl Reolwyr y Coleg ddealltwriaeth dda o ofynion Safonau'r Gymraeg a byddant yn chwarae rhan ymarferol wrth hyrwyddo ymrwymadau'r Polisi hwn wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

1.4 Ceir rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg y mae angen i'r Coleg gydymffurfio â hwy yma: <https://www.merthyr.ac.uk/en/the-college/welsh-language-standards/>

1.5 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch Safonau'r Gymraeg neu'r polisi hwn at Lynwen Harrington l.harrington@merthyr.ac.uk

2. Darparu Gwasanaethau

2.1 Darparu Gwasanaethau: Gohebiaeth Ysgrifenedig

2.1.1 Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth gan staff, dysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Bydd pob gohebiaeth, yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael ei hateb o fewn yr un cyfnod amser.

2.1.2 Mae'r Coleg yn cadw cofnod o ddewis iaith staff, dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd. Bydd y rhai sydd wedi dewis y Gymraeg yn derbyn pob gohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.

2.1.3 Ysgrifennir negeseuon e-bost, llythyrau a chylchlythyrau safonol/generig yn ddwyieithog.

2.1.4 Ysgrifennir holl negeseuon e-bost mewnol y coleg i staff o Dîm Cymraeg yn ddwyieithog.

2.1.5 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi cyn cael ateb. Mae'r Coleg yn cyflogi cyfieithydd rhan-amser sy'n gallu darparu gwasanaeth effeithlon ac yn ymateb yn gyflym ar gyfer ceisiadau cyfieithu a phrawfddarllen. Byddwch yn ymwybodol bod hyn yn berthnasol yn ystod y tymhorau yn unig. Yn ystod gwyliau defnyddir gyfieithydd allanol fydd yn gofyn am o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd.

Yr amserlen arferol ar gyfer cyfieithu yw:

- **Hyd at 2 ochr A4 (1000 o eiriau) – 1 diwrnod gwaith**
- **Rhwng 2 – 5 ochr A4 (2500 o eiriau) – hyd at 5 diwrnod gwaith**
- **Rhwng 5 – 10 ochr A4 (5000 o eiriau) – hyd at 10 diwrnod gwaith**
- **Bydd mwy na 10 ochr A4 yn cael eu cyfieithu'n allanol gydag isafswm o 15 diwrnod gwaith o rybudd.**

Er mwyn galluogi'r cyfieithydd i gwblhau eich cais, rhaid i chi gyflwyno'r canlynol:

- **Y drafft terfynol yn unig (dim diwygiadau dilynol ar ôl y cyfieithu).**
- **Fformat gellir ei olygu er enghraifft, Word, PowerPoint, Excel, Publisher. (Dim PDF na gwaith celf).**

- **Nodwch erbyn pa ddyddiad y mae angen y cyfieithiad (yn dilyn yr amodau amserlen uchod)**

2.2 Darparu Gwasanaethau: Gwasanaethau Ffôn

2.2.1 Atebir pob galwad sy'n dod i mewn gyda chyfarfodiad cychwynol ddwyieithog.

2.2.2 Mae negeseuon ffôn ateb yn cynnwys neges ddwyieithog fer ac mae croeso i alwyr adael neges yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd yr ymateb i neges y galwr yn iaith y galwr.

2.2.3 Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llwyr i gynyddu nifer yr aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg mewn rolau wyneb blaen (wyneb cyhoeddus), wrth i rolau o'r fath ddod yn wag ac yn dibynnu ar allu siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr sy'n gwneud cais am swyddi o'r fath.

2.3 Cyflenwi Gwasanaethau: Cyfarfodydd, Nosweithiau Agored a

Chyflwyniadau

2.3.1 Cyfarfodydd ag unigolion.

Mae gan staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewn perthynas â'r canlynol, a bydd y Coleg yn gwneud y trefniadau priodol drwy gydol y broses:

- Rheoli Perfformiad
- Cwynion
- Materion disgyblu
- Ymgynghoriadau ar ailstrwythuro adran neu wasanaeth
- Cyfweiliadau swydd

Os na all y rhai sy'n gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd uchod wneud hynny yn Gymraeg yna gwneir trefniadau fel y gall aelod priodol arall o staff sy'n siarad Cymraeg wneud hynny. Os yw hyn yn amhosibl neu mewn sefyllfaoedd lle byddai'n amhriodol, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd y Tîm Rheoli yn gyfrifol am drefnu cyfieithu ar y pryd.

2.3.2 Cyfarfodydd ar draws y Coleg a chyfarfodydd grŵp eraill

Os rhoddir gwahoddiad i bob aelod o staff fynychu cyfarfod penodol neu gyfarfod arbennig (e.e. cyfarfodydd ymgynghori), bydd gan staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw. Darperir cyfieithu ar y pryd i hwyluso hyn. Swyddfa'r Pennaeth fydd yn gyfrifol am drefnu cyfieithu ar y pryd.

2.3.3 Bydd pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog.

2.3.4 Bydd y Coleg yn sicrhau bod aelodau o staff ar gael sydd yn gallu cyfarch yn ddwyieithog

2.3.5 Bydd y Coleg yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus os yw'r rhai sy'n bresennol wedi mynegi eu dymuniad i gynnal y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3.6 Bydd Rheolwyr a staff y Coleg yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio cyflwyniadau dwyieithog a Chymraeg achlysurol ym mhob cyfarfod mewnol a chyhoeddus.

2.3.7 Os yw unigolyn wedi mynegi'r dewis o gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Coleg yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i hwyluso hynny.

2.3.8 Bydd holiaduron a/neu arolygon wedi'u hanelu at staff, dysgwyr neu'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahan. Bydd anhysbysrwydd ymatebwyr, boed yn ymateb yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn cael ei ddiogelu.

2.4 Darparu Gwasanaethau: Cyfathrebu Electronig

2.4.1 Mae croeso i bobl sy'n dymuno cyfathrebu drwy e-bost ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y Coleg yn ymateb yn iaith y neges gychwynnol tra'n sicrhau nad oes oedi wrth ymateb.

2.4.2 Mae llofnodion e-bost staff yn ddwyieithog ac anogir aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg i arddangos y logo "Cymraeg Gwaith" i nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

2.5.2 Disgwylir i staff ddefnyddio'r canllawiau ar 'sut i greu neges ddwyieithog' sydd i'w cael ar borth y staff er mwyn creu negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa'.

2.5 Darparu Gwasanaethau: Brandio a Hunaniaeth Gyhoeddus

2.5.1 Mae'r Coleg yn cyhoeddi'r holl ddeunydd corfforaethol yn ddwyieithog.

2.5.2 Mae hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn ddwyieithog.

2.5.3 Mae'r Coleg yn sicrhau y bydd fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar bob deunydd corfforaethol.

2.5.4 Os oes angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen/cyhoeddiad, cyhoeddir a dosberthir y ddau fersiwn ar yr un pryd. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon ac yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. I hyrwyddo hyn, bydd pob fersiwn yn cario datganiad yn esbonio bod y ddogfen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

2.5.5 Mae logo'r Coleg a thempledi'r Coleg ar gael yn ddwyieithog ac yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5.6 Darperir canllawiau i staff colegau a rhanddeiliaid allanol ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg/Saesneg o gyhoeddiadau ar wahân.

2.5.7 Mae holl ffurflenni'r Coleg ar gael yn ddwyieithog.

2.5.8 Cyhoeddir pob deunydd ysgrifenedig ac electronig sydd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Unwaith eto, bydd y Coleg yn sicrhau y bydd fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddeunyddiau o'r fath.

2.5.9 Mae holl ddeunydd cyhoeddusrwydd y Coleg yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog a'i gynllunio i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

2.5.10 Mae holl ddeunydd arddangos y Coleg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog, a bydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

2.5.11 Mae holl hysbysiadau a hysbysebion cyhoeddus y Coleg yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd.

2.5.12 Caiff hysbysiadau cyfryngau cymdeithasol eu postio yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

Y weithdrefn gwyno ar Ddarparu Gwasanaethau

Nodir y weithdrefn ar gyfer safonau darparu gwasanaeth ym mholisi cwynion y coleg.

Cliciwch yma i weld y polisi cwynion

3. Gweithrediadau Mewnol

3.1 Gweithrediadau Mewnol: Staffio a Recriwtio

3.1.1 Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad o siaradwyr Cymraeg ym mhob maes Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes, ac yn tynnu sylw at feysydd lle ystyrir bod yr angen am aelodau staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn "Hanfodol" neu'n "Ddymunol" mewn perthynas â natur y swydd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

3.1.2 Mae'n ofynnol i holl weithwyr y Coleg hunanasesu eu sgiliau ieithyddol Cymraeg mewn Siarad, Gwranddo, Darllen ac Ysgrifennu bob dwywaith y flwyddyn.

3.1.3 Ar gyfer penodiadau i rôl lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgil hanfodol yn y disgrifiad swydd, profir lefel hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y cyfweiliad.

3.1.4 Dylid cynnal cyfweiliadau ar gyfer swyddi sy'n cael eu hysbysebu fel rhai Cymraeg hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle y bo'n bosibl, dylai pob aelod o'r panel cyfweld fod yn siaradwyr Cymraeg. Os oes cymysgedd o staff sy'n siarad Cymraeg a di-Gymraeg ar y panel cyfweld, dylid defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd drwy gydol y cyfweiliad.

3.2 Gweithrediadau Mewnol: Sefydlu, Datblygu Staff a Hyfforddiant

3.2.1 Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn Sesiwn Sefydlu Gychwynnol, sy'n cynnwys sesiwn ar y Gymraeg a Diwylliant Yn y Coleg, trosolwg o Safonau'r Gymraeg, sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ac arweiniad ar ble i ddod o hyd i gymorth ar Borth y Staff mewn perthynas â gwasanaethau cyfieithu a phopeth yn ymwneud â'r Gymraeg yn y coleg.

3.2.2 Dylai'r holl staff gwblhau'r modiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r gyfres orfodol o DPP traws-golegol.

3.2.3 Anogir yr holl staff i ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae gan staff yr hawl i fynychu dosbarthiadau Cymraeg am ddim, o lefel dechreuwyr i lefel uwch. Bydd y Tîm Rheoli yn datblygu canllaw i bob rheolwr llinell i alluogi staff i fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith.

3.2.4 Anogir staff addysgu i ddilyn cyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra (e.e. prosiect Cymraeg Gwaith) sy'n cynnwys elfen fentora a hyfforddi.

3.2.5 Dylid trafod cynnydd a datblygiad sgiliau iaith Gymraeg staff unigol fel rhan o'r Cynllun Datblygiad Personol (Arfarniadau).

3.2.6 Bydd yr holl hyfforddiant gorfodol i staff ar gael yn Gymraeg gan gynnwys:

- Ymwybyddiaeth iaith
- Iechyd a diogelwch
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Diogelu

3.2.7 I Arweinwyr a Rheolwyr bydd yr hyfforddiant canlynol ar gael yn Gymraeg:

- Recriwtio a chyfweld
- Rheoli perfformiad
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd a chyfweiliadau

3.2.8 Pan ddefnyddir darparwr allanol i ddarparu hyfforddiant mewnol, bydd y Coleg yn ystyried pwysigrwydd a pherthnasedd darparu'r hyfforddiant yn Gymraeg (os yw'n wahanol i'r rhai a restrir uchod). Fel rhan o'r broses dendro, ac yn unol â gofynion Safonau 80-84, bydd y Coleg yn gofyn am wybodaeth am allu trydydd parti i ddarparu gwasanaethau hyfforddi yn Gymraeg, a gwneir pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn Gymraeg. Bydd y darparwr allanol yn gyfrifol am drefnu a thalu am gyfieithu a darparu hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg lle bo angen.

3.3 Gweithrediadau Mewnol: Cyfieithu

3.3.1 Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol y Coleg ar gael i bob aelod o staff ac fe'u cynghorir ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn briodol.

3.3.2 Yn ystod cyfnodau o alw, sy'n fwy na chapasiti'r gwasanaeth cyfieithu mewnol, bydd y Coleg yn defnyddio cyfieithydd allanol ar gyngor Cyfieithydd llawn amser y Coleg.

Y weithdrefn gwyno ar Weithrediadau

Nodir y weithdrefn am safonau Gweithrediadau ym mholisi cwynion y coleg.

[Cliciwch yma i weld y polisi cwynion](#)

4. Llunio Polisiâu

4.1 Llunio Polisiâu: Polisiâu a Mentrau Newydd

4.1.1 Mae'r Coleg yn monitro'r holl bolisiâu a mentrau newydd i sicrhau eu bod yn gyson â'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4.1.2 Craffir ar bob polisi a menter newydd fel rhan o'r broses Asesu Effaith, i asesu eu goblygiadau ieithyddol posibl ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

4.1.3 Dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am greu polisiâu a mentrau newydd fod yn ymwybodol o'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg a gofynion Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

4.1.4 Wrth greu polisiâu a mentrau newydd bydd y Coleg yn ymdrechu i hyrwyddo, annog a datblygu iaith a natur y Gymraeg.

4.2 Llunio Polisiâu: Tendrau

4.2.1 Pan fydd y Coleg yn gwahodd tendrau ar gyfer contractau penodol, mae ystyriaeth o dueddiadau a gofynion ieithyddol yn cael ei gwneud a'i chyfleu ym manyleb y tendr; mae monitro is-gontractwyr yn cynnwys cyfeiriad at eu perfformiad mewn perthynas ag ystyriaethau Cymraeg.

4.2.2 Os yw'r Coleg yn derbyn tendr yn Gymraeg, gwneir trefniadau i dendrwyr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu gyflwyniad.

4.2.3 Mae'r Coleg yn hyrwyddo'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a bydd yn eu hannog i fabwysiadu ein prosesau cydymffurfio.

4.2.4 Os bydd y Coleg yn cymryd rhan mewn trefniadau trydydd parti, bydd yn ceisio sefydlu bod unrhyw gontractau o'r fath yn gyson â'n Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

Y weithdrefn gwyno ar y Safonau Llunio Polisi

Nodir y weithdrefn ar gyfer y safonau Llunio polisi ym mholisi cwynion y coleg.

[Cliciwch yma i weld y polisi cwynion](#)

5. Monitro ac Adrodd

5.1 Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad rheolaidd o gydymffurfiaeth ardaloedd Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes â Safonau'r Gymraeg. Dylai Rheolwyr Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes gymryd cyfrifoldeb am weithredu Safonau'r Gymraeg ar lefel leol.

5.2 Darparu cyngor ac arweiniad ar lynu wrth Bolisi'r Coleg o ddydd i ddydd ar Ddefnyddio'r Gymraeg, a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yw cyfrifoldeb y Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Rheolwr Cymraeg a gefnogir gan y Tîm Cymraeg.

5.3 Pennaeth y Coleg sy'n bennaf gyfrifol am yr uchod.

5.4 Mae'r Coleg yn gweithredu Grŵp Llywio'r Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o adrannau Cwricwlwm a Chymorth Busnes o bob rhan o'r Coleg. Caiff Grŵp Llywio'r Gymraeg (Taith y Dysgwr) ei gadeirio gan Bennaeth Cynorthwyol y Coleg ac mae'n cyfarfod unwaith y tymor. Mae'r Grŵp hwn yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn pob un o Safonau'r Gymraeg. Mae aelodau Grŵp Llywio'r Gymraeg yn cymryd cyfrifoldeb am ledaenu mentrau a chanllawiau ar draws pob maes.

5.5 Bydd y Coleg yn cynnal ymarfer 'Siopwr Dirgel' mewnol a fydd yn rhan o'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth a chynnydd yn fewnol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal bob tymor. Bydd aelodau Tîm Cymraeg y Coleg yn arwain y gweithgaredd hwn. Bydd canlyniadau'r gweithgareddau yn cael eu hadrodd i Grŵp Llywio'r Gymraeg.

5.6 Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr a Rheolwr y Gymraeg yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar weithgarwch a pherfformiad y Coleg mewn perthynas â'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i Fwrdd Llywodraethwyr a Thîm Rheoli'r Coleg i'w adolygu a'i gymeradwyo wedyn, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Coleg ac ar fewnwyd y staff. Sicrheir bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i gyhoeddi drwy fewnwyd y staff.

6. Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg

6.1 Cyfrifoldeb y Tîm Rheoli, a gefnogir gan Y Tîm Cymraeg a Thîm Marchnata, yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i staff yn y Coleg

6.2. Cyfrifoldeb y Timau Addysgu a Dysgu, y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a'i gefnogi gan Y Tîm Cymraeg a'r Tîm Marchnata yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i ddysgwyr yn y Coleg.

6.3 Cyfrifoldeb y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, Y Tîm Cymraeg a'r Tîm Marchnata yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yn y Coleg.

6.4 Cyfrifoldeb y Tîm Dysgu Seiliedig ar Waith, Y Tîm Cymraeg a'r Tîm Marchnata yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i brentisiaid a chyflogwyr yn y Coleg.

6.5 Anogir yr holl staff i ddangos eu gallu i siarad Cymraeg, naill ai fel siaradwr rhugl neu fel dysgwr drwy wisgo bathodyn neu 'lanyard' a thrwy arddangos logo oren 'Cymraeg Gwaith' fel rhan o'u llofnod e-bost.

6.6 Bydd y Coleg yn creu calendr o ddigwyddiadau i hyrwyddo a dathlu Cymraeg a dwyieithrwydd. Bydd y Coleg hefyd yn cydnabod cyfraniad staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg (e.e. Gwobrau Blynyddol). Cynhelir gweithgareddau hefyd sy'n dod â siaradwyr Cymraeg, staff a dysgwyr at ei gilydd i gymdeithasu yn Gymraeg (e.e. Boreau Coffee, Cystadlaethau, a Digwyddiadau).

